

Enw'r Sefydliad: Chwaraeon Cymru

Ym mha ffyrdd rydych chi'n defnyddio Y Ffordd Gywir/CCUHP yn eich gwaith? Trosolwg cryno o'r gwaith a gyflawnwyd a manteision ymgorffori Y Ffordd Gywir/CCUHP

Ymgorffori – ein nod yw ymgorffori Y Ffordd Gywir ym mhob rhan o'n gwaith. O dan arweiniad y Tîm Polisi a Materion Cyhoeddus, rydyn ni wedi dechrau prosiect mewnol i dynnu ynghyd holl waith ac egwyddorion y pedwar Comisiwn yng Nghymru er mwyn adolygu lle rydyn ni eisoes yn gwneud gwahaniaeth a lle gallen ni wneud rhagor. Nod y grwpiau hyn fydd herio ac annog ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad, gan ymgorffori hawliau plant ymhellach yn ein holl waith.

Peidio â chamwahaniaethu – nod ein dull buddsoddi yw sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf cynaliadwy, gan roi mwy o bwyslais ar gyllid ar gyfer cyfranogiad plant. Data gan blant a phobl ifanc fydd yn arwain y gwaith hwn ac fe'i defnyddir i dargedu gwasanaethau i'r rhai sydd ddim yn cael cyfleoedd ar hyn o bryd.

Grymuso – trwy weithio gyda'n partneriaid fel *Street Games* a rhaglen Llysgenhadon Ifanc yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuentid, rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc a'u bod nhw'n ymwneud â'n gwasanaethau mewn modd ystyrlon.

Cyfranogiad – Rydyn ni'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy ein Harolwg Chwaraeon Ysgol a'n rhaglenni clybiau a llysgenhadon.

Atebolrwydd – Yn arbennig, mae ein dull buddsoddi, sy'n defnyddio'r Arolwg Chwaraeon Ysgol fel ffynhonnell data allweddol, yn golygu bod yn dryloyw ynghylch ein penderfyniadau. Byddwn ni'n ymdrechu, yn y ddau ddarn yma o waith, i roi adborth i blant a phobl ifanc a chasglu eu barn ar effaith ein buddsoddiadau.